# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Mai 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13343

# 137

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 14.21

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.02

**Atebwyd gan Weinidog yr Economi**

Alun Davies (Blaenau Gwent): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Tillery Valley Foods?

**Atebwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyhoeddiad bod y crwner yn ymchwilio ymhellach i farwolaeth pedwar claf fasgwlar yn Ysbyty Glan Clwyd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Nid oedd Datganiadau 90 Eiliad

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Anymataliaeth

Dechreuodd yr eitem am 15.19

**NDM8252** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod anymataliaeth yn parhau i fod yn bwnc tabŵ i fenywod a dynion er ei fod yn fater iechyd cyhoeddus sylweddol;

b) bod dros 90 y cant o famau tro cyntaf yn profi trawma perineol yn ystod genedigaeth sy'n gallu arwain at broblemau anymataliaeth;

c) nad yw 75 y cant o fenywod yn gofyn am gymorth meddygol ar gyfer eu hanymataliaeth er ei bod yn effeithio ar ansawdd eu bywyd waeth pa mor ddifrifol ydyw;

d) bod dynion yn dioddef o anymataliaeth hefyd, yn arbennig yn ddiweddarach mewn bywyd ond mae'n broblem gudd i raddau helaeth.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau anymataliaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'r mater ymhlith y cyhoedd.

**Cyd-gyflwynwyr**

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru)

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith - Adroddiad blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru - 2022-23

Dechreuodd yr eitem am 16.06

**NDM8258** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith: 'Adroddiad blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru - 2022-23' a osodwyd ar 2 Mawrth 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau - O Bump i Bedwar? P-06-1247 Cefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 16.41

**NDM8257** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau, 'O Bump i Bedwar? P-06-1247 Cefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Twristiaeth

Dechreuodd yr eitem am 17.32

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8259** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 15 - 23 Mai yn Wythnos Twristiaeth Cymru 2023.

2. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol a wneir i gymdeithas Cymru gan y sector twristiaeth.

3. Yn gresynu nad yw'r diwydiant twristiaeth wedi gwella o hyd i'r lefelau yr oedd cyn y pandemig.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) dathlu cryfder Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer twristiaid;

b) annog mwynderau a chyfleusterau twristiaeth i gael eu darparu a'u gwella yng Nghymru;

c) cefnogi darparwyr llety hunanddarpar drwy ddiddymu'r trothwy deiliadaeth 182 diwrnod;

d) rhoi'r gorau i gynigion niweidiol ar gyfer treth dwristiaeth yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 36 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl 4b a rhoi yn ei le bwyntiau newydd:

Yn cefnogi diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o ddatblygiad twristiaeth gynaliadwy.

Yn nodi Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 a basiwyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf, a gyflwynwyd fel rhan o ymrwymiad ehangach i fynd i'r afael â materion ail gartrefi a thai anfforddiadwy y mae llawer o gymunedau yng Nghymru yn eu hwynebu.

Yn croesawu'r pwerau a'r canllawiau dewisol ar y dreth gyngor ac ail gartrefi, sydd ar gael i awdurdodau lleol, i leihau neu ddileu'r gofyniad i dalu naill ai'r gyfradd premiwm neu gyfradd safonol y dreth gyngor neu'r ddau.

Yn cydnabod bod ardollau ymwelwyr yn gyffredin ar draws y byd, a'u bod yn cael eu defnyddio er budd twristiaid, busnesau a chymunedau lleol, gan helpu i wneud twristiaeth yn gynaliadwy ac yn llwyddiannus.

Yn croesawu'r ymrwymiad i roi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn amodol ar ymgynghoriad.

Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig – Datblygu Cynaliadwy (Saesneg yn unig)

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022

Canllawiau ar Dreth Gyngor ar Dai Gwag ac Ail Gartrefi

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 15 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8259** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 15 – 23 Mai yn Wythnos Twristiaeth Cymru 2023.

2. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol a wneir i gymdeithas Cymru gan y sector twristiaeth.

3. Yn gresynu nad yw'r diwydiant twristiaeth wedi gwella o hyd i'r lefelau yr oedd cyn y pandemig.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) dathlu cryfder Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer twristiaid;

b) annog mwynderau a chyfleusterau twristiaeth i gael eu darparu a'u gwella yng Nghymru;

5. Yn cefnogi diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o ddatblygiad twristiaeth gynaliadwy.

6. Yn nodi Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 a basiwyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf, a gyflwynwyd fel rhan o ymrwymiad ehangach i fynd i'r afael â materion ail gartrefi a thai anfforddiadwy y mae llawer o gymunedau yng Nghymru yn eu hwynebu.

7. Yn croesawu'r pwerau a'r canllawiau dewisol ar y dreth gyngor ac ail gartrefi, sydd ar gael i awdurdodau lleol, i leihau neu ddileu'r gofyniad i dalu naill ai'r gyfradd premiwm neu gyfradd safonol y dreth gyngor neu'r ddau.

8. Yn cydnabod bod ardollau ymwelwyr yn gyffredin ar draws y byd, a'u bod yn cael eu defnyddio er budd twristiaid, busnesau a chymunedau lleol, gan helpu i wneud twristiaeth yn gynaliadwy ac yn llwyddiannus.

9. Yn croesawu'r ymrwymiad i roi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn amodol ar ymgynghoriad.

Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig - Datblygu Cynaliadwy (Saesneg yn unig)

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022

Canllawiau ar Dreth Gyngor ar Dai Gwag ac Ail Gartrefi

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 15 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd**

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.22

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.25

**NDM8256** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

A yw eogiaid yn wynebu difodiant o afonydd Cymru?

Daeth y cyfarfod i ben am 18.47

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Mai 2023**